

Teitl:	Syrfëwr Adeiladau (Cynnal a Chadw Eiddo)
Lleoliad:	Gweithiwr Ystwyth
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol
Rhif y Swydd:	BG14084
Cyflog:	Gradd 8 (£39,513 - £43,693 y flwyddyn)
Oriau:	37 awr yr wythnos
Contract:	Cyfnod Penodol (2 flynedd)

Crynodeb o'r Swydd

Bydd rôl y Syrfëwr Adeiladau (Cynnal a Chadw Eiddo) yn gyfrifol am gyflawni prosiectau mân waith, cynnal a chadw adweithiol a chynlluniedig a gwella eiddo asedau adeiladau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Hysbyseb Lawn

Mae swydd Cyfnod Penodol wedi codi o fewn yr adran Cynnal a Chadw Eiddo, i unigolyn profiadol a brwdfrydig ymuno â'n Tîm.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gyflawni prosiectau mân waith a chyfalaf bach sy'n benodol i eiddo Asedau Adeiladu o fewn yr Awdurdod Lleol (e.e. Addysg, Adfywio a Landlord Corfforaethol ac ati).

Bydd y rôl yn cynnwys arwain ar waith dylunio mewn perthynas â mân waith a phrosiectau cyfalaf sy'n benodol i asedau adeiladu mewn eiddo newydd ac eiddo wedi'i adnewyddu mewn amrywiol bortffolios o fewn yr Awdurdod. Bydd hyn yn cynnwys cynnal arolygon adeiladau gan gynnwys paratoi lluniadau / manylebau ar gyfer prosiectau mân waith a gosod gorchmynion perthnasol i gydymffurfio â Pholisi Caffael yr Awdurdod. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda chleientiaid, contractwyr a thimau technegol amrywiol eraill.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cynorthwyo i ddatblygu arbenigedd yr Is-adran ym mhob agwedd ar brofion statudol er mwyn gweithredu trefn brofi, fel bod yr Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol.

Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.

Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

I gael gwybodaeth am ailgyflogaeth ac ail-gyflogi cyn-weithwyr, cyfeiriwch at Bolisi Tâl y Cyngor.

Dyddiad Cau 05/12/2024

Dyddiad Cyfweliad 16/12/2024